

Y newid mewnol

*“Eilunod yw holl dduwiau'r bobloedd, ond yr Arglwydd a wnaeth y nefoedd.”
(adn. 26)*

Beth am ddarllen 1 Croniel 16:7–26 ac yna myfyrio

Yr ydym am dreulio un diwrnod arall yn edrych ar y gwirionedd mai'r nodwedd bwysicaf ym mywyd eglwys Antiochia oedd ei phwyslais ar addoliad. Ddoe, fe sylwyd na ellir addoli mewn gwirionedd tra bod Duw mewn isadran yn ein bywyd. Rhaid iddo gael y rhyddid i feddiannu ein calon i gyd. Mae'r ffordd yr edrychwn ar addoliad yn peri gwahaniaeth mawr yn ein bywyd ni. Os ydym yn ceisio lleoli Duw mewn adeilad neu deml, yr ydym yn siŵr o ddod i sefyllfa lle y mae ei ddylanwad ar ein bywyd yn gyfyngedig iawn. Os ydym am ei wahodd i gymryd ei le ar orsedd ein calon, fe welwn yn syth fod ei Ysbryd yn goleuo ei sancteiddrwydd ac yn peri fod llewyrch y goleuni yma yn cael ei daflu ar bob rhan o'n cymeriad a'n bywyd.

Os nad yw gwrthrych ein haddoliad yn puro ac yn glanhau ein calon, yn puro y ffordd yr ydym yn ymddwyn, yna mae'n amhosibl dweud ein bod wedi gwir addoli erioed. Mae cadw Duw mewn teml yn arwyddo awydd i sicrhau nad yw'n dod yn rhy agos i ganol ein bywyd.

Ychydig ddiwrnodau yn ôl, fe soniwyd am yr angen sydd gan bobl i addoli. Ond rhaid i ni dderbyn y ffaith fod addoliad o Dduw mewn ysbryd a gwirionedd ddim ond yn wir pan fo Duw yn cael ei le yn ein calon. Os nad ydym yn barod i wynebu'r newid mewnol sydd yn dilyn adnabod Duw, mi fydd ein haddoliad yn ddim mwy na ffurf, ac addoli eilun y byddwn ni, nid addoli'r gwir Dduw. Mae'r eilun yma yn bodloni i ryw raddau ein hawydd i addoli, a hefyd yn sicrhau nad oes raid i'n bywyd ni gael ei newid. Nid yw hyn yn dwyn unrhyw bleser nac ychwaith unrhyw heddwch. Mae'n bwysig i ni sylweddoli na fydd yna wir addoliad yn ein bywyd ni nac ym mywyd ein heglwys, os nad ydym ar yr un pryd yn barod am newid mewnol.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Ex. 15:1–18; Salm 115:1–18; Actau 17:22–30; 2 Cor. 6:14–7:1; Col. 3:1–5

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw gwir addoliad?
2. Beth yw'r cysylltiad rhwng addoliad a ffordd o fyw?

Gweddi

O Dad, rwy'n diolch i ti dy fod yn fy nwyn, nid yn unig i adnabod fy hunan, ond hefyd i brofi'r hunan yn cael ei newid. Rwyt wedi dangos y ffordd i mi allan o eilunaddoliaeth. Cynorthwya fi yn awr i gerdded y ffordd honno. Yn enw Iesu. Amen.